**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | C A Holley | P R Hood-Williams |
| S M Jones | J W Jones | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| T Beddow | Katrina Guntrip |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet - Gofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda |
| Jason Crowl | Cyfarwyddwr Nyrsio, Gwasanaethau Sylfaenol Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Andrew Davies | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd PABM |
| Sian Harrop-Griffiths | Swyddog Gweithredol Cyfarwyddwr Strategaeth a Bwrdd Iechyd PABM |
| Tracy Myhill | Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd PABM |
| David Roberts | Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd Meddwl a Dysgu Bwrdd Iechyd ABMU |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Deborah Reed | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J A Hale, Y V Jardine, P K Jones a/ac G J Tanner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiadau

2 **Cyflwyniad a Sesiwn Holi ac Ateb gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol**

Roedd y Cadeirydd, Andrew Davies a'r Prif Weithredwr, Tracy Myhill o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn bresennol gyda'u cydweithwyr

Jason Crawl, Sian Harrop-Griffiths a David Roberts er mwyn rhoi cyflwyniad i'r panel ac ateb cwestiynau.

Hysbysodd Andrew Davies y panel eu bod yn ymddangos ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ond yr oeddent mewn gwirionedd yn cynrychioli'r bartneriaeth ehangach sy'n cynnwys y 3 awdurdod lleol a'r trydydd sector. Mae'n bartneriaeth gref ac effeithiol ac mae'r perthynas wedi gwella'n sylweddol dros y 5 i 6 blynedd diwethaf. Oedran cyfartalog cleifion yw 85 ac yn aml mae ganddynt fwy nag un broblem gymhleth. Blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yw darparu'r gofal orau a gwella iechyd y boblogaeth

Pwyntiau trafod:

- O 1 Ebrill ymlaen ni fydd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Fwrdd Iechyd PABM bellach a bydd y Bwrdd Iechyd yn newid ei enw i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dylai'r cynnig hwn fod yn niwtral o ran cost i'r Bwrdd Iechyd a ni ddylai gael unrhyw effaith niweidiol ar y boblogaeth.
- Mae'r Bwrdd Iechyd am leihau ei ddiffyg ariannol mewn ffordd reoledig. Mae'n ceisio newid mewn ffordd strategol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn teimlo mai cyllid oedd y prif reswm dros yr ymyriad penodol yn 2016, yn bennaf yn nhermau costau darparu.
- Yr unig ffordd o fynd i'r afael ag ataliaeth a lles yw trwy gydweithio. Dyma ffocws y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Bydd angen symud y system gyfan o drin iechyd i ataliaeth.
- Polisi'r Bwrdd Iechyd yw ceisio cadw pobl yn eu cartrefi am gyhyd ag y bo modd
- Mae anghydfodau'n digwydd rhwng yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd ynghylch pecynnau gofal. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol wrth ymdrin â hyn. Caiff ei ddatrys fesul achos. Nid oes amserlenni ar waith er mwyn datrys anghydfodau rhwng yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol yn gweithio'n fwy tuag at gyfuno cyllidebau ar gyfer pecynnau gofal. Gallai hyn o bosib arwain at gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer hyn yn y dyfodol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i newid modelau o ofal.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'i strategaeth 10 mlynedd er mwyn darparu fframwaith ar gyfer cynlluniau tymor byr
- Nid oes unrhyw system hygyrch ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n hygyrch i bawb. Rydym yn gobeithio y bydd un ar waith yn y tair blynedd nesaf.
- Mae'r panel wedi gofyn am fwy o wybodaeth gan y Bwrdd Iechyd ar ddangosyddion marwoldeb, morbidrwydd a lles. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ddarparu hyn.

Camau gweithredu:

- Bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu data ar ddangosyddion marwoldeb, morbidrwydd a lles.

3 **Adolygiad o'r flwyddyn 2018/19**

Bu'r panel yn ystyried y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm